# Adeiladu nythod

## Trosolwg

Gweithgaredd creadigol sy'n archwilio sut y mae adar yn adeiladu eu nythod. Defnyddiwch y cyfle hwn i ystyried y strwythurau awyr agored rhyfeddol hyn, eu dyluniad a'u hadeiladwaith.



## Gweithgareddau

Boed yn fawr neu fach, mewn coeden neu ar y ddaear, mae pob nyth yn cynnwys yr un nodweddion – maent wedi'u cuddliwio, maent yn gryf ac yn gadarn, ac mae eu tu mewn yn feddal.

Edrychwch o gwmpas y man awyr agoredble y mae'r lle gorau i greu eich nyth?

Defnyddiwch y deunyddiau a gasglwyd i adeiladu'r nyth – cofiwch fod angen iddi aros yn gyfan yn y gwynt a'r glaw a bod yn feddal y tu mewn er mwyn dal yr wyau a gwarchod y cywion.

## Offer

- Amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol megis brigau, mwsogl, plu, dail, mwd, gwlân a glaswellt.

## Cwestiynau allweddol

Pa ddeunyddiau sydd orau i greu gwahanol rannau'r nyth a pham?
Pam y mae'r rhan fwyaf o adar yn adeiladu eu nythod mewn coed neu lwyni?

## Deilliannau dysgu

- Llythrennedd / Iaith – trafod, rhesymu, empathi â'r byd naturiol.
- Mathemateg – defnyddio iaith fathemategol, graddfa, siâp, patrwm, datrys problemau.

## Symud y dysgu yn ei flaen

- Gweithio gyda'r plant i adnabod ffyrdd o wneud y man awyr agored yn fwy caredig i adar.
- Canolbwyntio ar gylchoedd bywyd, sy'n cynnwys gosod blwch adar â chamera yn yr awyr agored.